



# Gorffennol Digidol Digital Past - 2021

## HERITAGE ON THE EDGE:

### Rôl Treftadaeth o ran Cynyddu Uchelgais a Gweithredu Byd-eang yn Wyneb Newid Hinsawdd

**Will Megarry, Uwch Darlithydd mewn GIS ac Archaeoleg, Prifysgol Queen's Belfast;  
Gweithgor Newid Hinsawdd a Threftadaeth Ddiwylliannol ICOMOS**

Yn y cyflwyniad hwn fe ystyrir gallu treftadaeth i gyfleu'r angen i weithredu ar frys yn wyneb newid hinsawdd. Mae'r argyfwng hinsawdd wedi ysgogi ymateb cadarn mewn llawer sector, gan gynnwys treftadaeth. Mae'r croestoriadau rhwng treftadaeth ddiwylliannol a newid hinsawdd yn gymhleth ac amlweddog ac ymchwiliwyd iddynt yn ddiweddar gan Weithgor ICOMOS ar Newid Hinsawdd a Threftadaeth. Cafodd ei adroddiad, 'Future of Our Pasts: Engaging Cultural Heritage in Climate Action', ei ryddhau gan ICOMOS yn 43ain sesiwn y Pwyllgor Treftadaeth Byd yn Baku, Azerbaijan ym mis Gorffennaf 2019. Un o'r themâu yn yr adroddiad oedd grym cyfathrebol unigryw lleoedd treftadaeth ac, yn fwyaf arbennig, treftadaeth eiconig, a'i gallu i gyfleu'r angen i weithredu ar frys ac annog gweithredu ystyrlon ar raddfa byd-eang.

Ym mis Mehefin 2018, ffurfiodd aelodau Gweithgor ICOMOS bartneriaeth gyda Google Arts and Culture a CyArk, sefydliad dogfennaeth 3D yng Nghaliffornia, i hybu'r prosiect 'Heritage on the Edge'. Lanswyd hwn ym mis Ionawr 2020 i edrych ar y berthynas rhwng treftadaeth ddiwylliannol a newid hinsawdd drwy lens pum safle treftadaeth y byd: Dinas Fosg Hanesyddol Bagerhat yn Bangladesh, Parth Archaeolegol Chan Chan ym Mheriw, Hen Ddinas a Dinas Newydd Caeredin yn yr Alban, Adfeilion Kilwa Kisiwani ac Adfeilion Songo Mnara yn Nhansania, a Pharc Cenedlaethol Rapa Nui. Gan ddefnyddio technoleg cipio 3D, fideos, cyfweiliadau â rhanddeiliaid, infograffeg, a naratif wedi'i ysgrifennu gan arbenigwyr ICOMOS, ystyriwyd materion fel colled a difrod, cofnodi a dogfennu safleoedd mewn

[Gorffennol Digidol 2021](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan | 8<sup>ed</sup> – 12<sup>ed</sup> Chwefror 2021, ar-lein drwy Zoom.

perygl, cynllunio i addasu, mesurau lliniaru carbon mewn adeiladweithiau hanesyddol, a chyfiawnder hinsawdd mewn ffordd hygyrch gan ddefnyddio porthol ar-lein wedi'i westeia ar borthol Google Arts and Culture. Yn y cyflwyniad, fe ddisgrifir y prosiect a thrafodir enghreifftiau o safleoedd penodol. Hefyd fe gyflwynir canlyniadau adborth gan randdeiliaid a dadansoddeg ar-lein gan asesu effeithiolrwydd porthol y prosiect fel arf cyfathrebol, ac awgrymir gwelliannau ar gyfer prosiectau yn y dyfodol sydd wedi'u seilio ar gydweithredu a chyfnewid gwybodaeth parhaus gyda'r safleoedd y mae newid hinsawdd yn effeithio arnynt.

## **Bywgraffiad**

Mae gan Will Megarry, archaeolegydd tirwedd ac arbenigwr ym maes systemau gwybodaeth ddaearyddol (GIS) a rheoli treftadaeth, fwy na 15 mlynedd o brofiad masnachol ac academaidd. Mae ganddo ddiddordeb arbennig mewn cymhwyso technolegau geo-ofodol at archaeoleg a rheoli a gwarchod safleoedd treftadaeth ddiwylliannol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu'n ymchwilio i'r croestoriadau rhwng treftadaeth ddiwylliannol a newid hinsawdd, gan ganolbwyntio ar ddefnyddio treftadaeth ddiwylliannol fel caffaeliad i godi ymwybyddiaeth ac ysgogi gweithredu yn wyneb newid hinsawdd. Mae ef hefyd yn archaeolegydd maes prysur, ac yn gweithio ar hyn o bryd ar brosiect ar dirweddau Neolithig ynysoedd Shetland.